Bitesize

# Profion ar ïonau

| | |
|---|---|
| MAGS | Haia. Mags a Cal ydyn ni. |
| CAL | Rydyn ni'n gwneud lot o brofion yn y brifysgol, ond rhan o gemeg ydy profi yn y byd go iawn. |
| MAGS | Fel profi ein dŵr yfed, er enghraifft. Dyma ein fideo ni ar sut i brofi am wahanol fathau o ïonau, yn enwedig ïonau sylffad a charbonad.<br><br>Ddylai fod dim gormod o rai sylweddau mewn dŵr – er enghraifft, mae sylffadau'n medru gwneud i ddŵr flasu'n gas, neu wneud pobl yn sâl.<br><br>Mae'r sampl dŵr 'ma'n hydoddiant, a rydyn ni'n gwybod ei fod o'n cynnwys halen sylffad. Dw i eisiau profi bod ïonau sylffad ynddo fo hefyd.<br><br>Yn gyntaf, rhaid ychwanegu hydoddiant bariwm clorid at y sampl. Os oes ïonau sylffad ynddo fo, bydd gwaddod gwyn o fariwm clorid yn ffurfio. |
| CAL | Gwaddod ydy solid anhydawdd sy'n ffurfio wrth gymysgu dau hydoddiant neu ragor. |
| MAGS | Ie. Mae bariwm sylffad yn anhydawdd, felly mae'r gwaddod gwyn 'ma'n ymddangos. |
| CAL | Dyma'r stwff rwyt ti angen ei wybod, gan gynnwys yr hafaliad ïonig. |
| MAGS | Rŵan, dw i eisiau profi am ïonau carbonad. Dyma arbrawf dau gam sy'n defnyddio asidau. Yn yr arbrawf yma, dw i'n mynd i brofi am ïonau carbonad mewn darn o galchfaen.<br><br>Cam un – ychwanega asid at y sampl. Bydd ffisian yn dangos os oes ïonau carbonad yno. I ffwrdd â ni...<br><br>Mae'r ïonau carbonad yno, felly mae nwy'n cael ei gynhyrchu – dyna'r ffisian. Mae hyn am fod ïonau carbonad yn adweithio efo asidau gwanedig i gynhyrchu carbon deuocsid a dŵr.<br><br>Ond ai carbon deuocsid ydy'r nwy sy'n cael ei ryddhau? |
| CAL | Debyg iawn? |


© Hawlfraint BBC

| | |
|---|---|
| MAGS | Dydy ‘debyg iawn’ ddim yn ddigon da. Cam dau – profa fo. Casgla’r nwy a gyrru’r swigod drwy ddŵr calch, sef hydoddiant calsiwm hydrocsid. |
| CAL | Ah, mae o’n troi’n llaethog ac yn gymylog. |
| MAGS | A dyna’r prawf mai carbon deuocsid ydy o. |
| CAL | Rydyn ni hefyd yn medru profi am ïonau halid efo arian nitrad ac yn profi am ïonau metel efo’r prawf fflam.<br><br>Felly, i brofi am ïonau sylffad, ychwanega hydoddiant bariwm clorid a chwilio am waddod gwyn. |
| MAGS | I brofi am ïonau carbonad, ychwanega asid ac edrych i weld os ydy o’n ffisian. Gyrra swigod nwy drwy ddŵr calch, ac os ydy o’n troi’n llaethog, carbon deuocsid ydy o.<br><br>A sôn am laeth…dw i’n meddwl bod hwnna wedi suro. |


© Hawlfraint BBC